# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 2 Awst 2018 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 3 Awst 2018 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 13 Awst 2018 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd. Gareth Thomas

Aelod Cabinet Addysg

**Pwnc :**

Caniatâd i gynnal ymgynghroiad statudol ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11oed.

**PENDERFYNIAD –**

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013, cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 I 3-11 fel eu bod yn gallu derbyn plant i ddosbarth meithrin yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed, gan weithredu'r newid ar 1af Medi 2019.

Bydd yr ymgynghroiad yn cael ei gynnal rhwng 17 Medi - 29 Hydref 2018.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr adroddiad swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd ac yr Aelod Lleol.

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Gareth Thomas |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Owen Owens<br>Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 02 Awst 2018 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc :**

Caniatâd i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013, cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11 fel eu bod yn gallu derbyn plant i ddosbarth meithrin yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed, gan weithredu'r newid ar 1af Medi 2019.

Mi fydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal rhwng 17 Medi – 29 Hydref 2018.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae angen cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig er mwyn cydymffurfio a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013 sy'n nodi fod:

> *'angen gweithdrefnau statudol i wneud newidiadau sylweddol i ysgolion. Mae'r gweithdrefnau wedi'u cynllunio i alluogi gwneud newidiadau pan ystyrir bod y newidiadau hynny yn angenrheidiol, ond mewn ffordd sy'n diogelu buddiannau dysgwyr ac yn rhoi'r cyfle i'r sawl sydd a diddordeb leisio barn ar y broses.*
>
> *Rhaid i gynigion gael eu cyhoeddi ar gyfer y newid(iadau) sylweddol canlynol (a elwir yn 'newidiadau a reoleiddir') i ysgolion:*

*Newid yn ystod oedran ysgol o flwyddyn neu fwy.*

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae bron pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn derbyn plant i ddosbarth meithrin ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed. Ar hyn o bryd mae ystod oedran Ysgol Llanbedr yn 4-11 ac mae'r Corff Llywodraethol wedi cyflwyno cais i Adran Addysg Gyngor Gwynedd am gael newid yr ystod oedran i 3-11 fel eu bod hwythau hefyd yn gallu derbyn plant yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed.

Yn dilyn rhoi ystyriaeth i'r cais mae'r Adran Addysg wedi cytuno y byddai ond yn deg i gynnig yr un hawl i Ysgol Llanbedr gynnig lle meithrin rhan amser (10 awr yr wythnos) yn ei ysgol nhw hefyd, yn unol â mwyafrif o ysgolion cynradd y sir a Pholisi Mynediad Ysgol Cyngor Gwynedd.

Mae'r Adran Addysg felly wedi cytuno i gynnal trefn statudol ar y cynnig, yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013

Wrth ystyried y cais bu i'r Adran Addysg roi ystyriaeth benodol i'r ffactorau canlynol sy'n ofynnol ar gyfer cynigion i ychwanegu dosbarthiadau meithrin mewn ysgol:

a) Safon yr addysg feithrin a digonolrwydd yr adeiladau, yr ystafelloedd a'r cyfleusterau a gynigir, yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, a hyfywedd unrhyw ysgol sy'n dymuno ychwanegu lleoedd meithrin;

Gan fod yr ysgol yn barod yn cynnig addysg cyfnod sylfaen a bod ystafelloedd a'r cyfleusterau a gynigir, yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored yn addas ar gyfer babanod rhagwelir gellir ychwanegu dosbarth meithrin yn yr ysgol yn ddiffwdan a ni fydd yn amharu ar y trefniadau presennol.

b) A oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn yr ardal;

Gan nad oes dosbarth meithrin yn nalgylch Ysgol Llanbedr, yn dilyn trafodaethau gyda cynrychiolwyr o'r ysgol, rydym o'r farn fod angen lleoedd meithrin ychwanegol o fewn ysgol yn yr ardal.

c) lefel y galw am fathau penodol o addysg feithrin, ee addysg feithrin cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth â chymeriad crefyddol;

Gan fod y cais dderbyniwyd gan Gorff Llywodraethol Ysgol Llanbedr am ddosbarth meithrin yn eu ysgol yn nodi y byddai cefnogaeth frwd i'r newid gan rhieni a swyddogion y cylch meithrin mae'r Adran Addysg yn ystyried fod lefel y galw yn y gymuned yn un gref.

ch) effaith y cynigion ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr preifat a thrydydd sector;

Yr unig ddarparwr meithrin yn y dalgylch ydi Cylch Meithrin Llanbedr. Mae'n debyg fydd unrhyw newid o ran ymestyn ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11 yn gallu effeithio ar niferoedd plant fydd yn mynychu y cylch meithrin ac, o bosib, cyllideb y cylch i'r dyfodol.

Mi fyddwn yn cynnwys swyddogion y cylch yn ein trafodaethau ac yn eu atgoffa fod cymorth ar gael gan Swyddog Busnes Tîm Plant a Chefnogi Teuluoedd Gwynedd i gynorthwyo'r cylch i edrych ar unrhyw effaith ellir newid ei gael arnynt ac i gynllunio i ymateb i unrhyw effaith negyddol.

d) i ba raddau y bydd y cynigion yn integreiddio addysg y blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant neu i ba raddau y maent yn gyson â dull gweithredu integredig.

Mi fydd yr ysgol yn parhau i gydweithio gyda'r cylch meithrin, sydd wedi ei leoli drws nesa i'r ysgol, er mwyn parhau i integreiddio addysg y blynyddoedd cynnar.

Mi fydd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys mwy o manylder am ymateb y Cyngor i'r holl ffactorau sy'n cael eu nodi yn Nghod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013

.

**Y broses statudol**

| **Dyddiad** | **Camau** |
|---|---|
| 17 Medi 2018 | Cyhoeddi dogfen ymgynghori |
| 29 Hydref | Dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig |
| O fewn 13 wythnos o'r dyddiad cau uchod | Cyflwyno'r Adroddiad Ymgynghori i Gabinet Cyngor Gwynedd - *Cabinet i benderfynu a ddylid cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol*<br>*Os caiff ei gymeradwyo – bwrw ymlaen gyda'r Rhybudd Statudol*<br>*Os na chaiff ei gymeradwyo – y cynnig yn dod i ben* |
| O fewn 26 wythnos o'r dyddiad cau uchod | Cyhoeddi rhybudd statudol |
| 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r rhybudd statudol | Dyddiad cau ar gyfer derbyn gwrthwynebiadau i'r cynnig |

| | |
|---|---|
| O fewn 28 diwrnod o ddyddiad cau y rhybudd statudol | Cabinet Cyngor Gwynedd i ystyried unrhyw wrthwynebiadau a gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig |
| | Cyhoeddi penderfyniad y Cabinet |
| Medi 2019 | Gweithredu'r cynnig neu parhau a'r drefn bresennol |

**Asesiad effaith cydraddoldeb**
Yn dilyn cynnal asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynnig, ni ragwelir unrhyw effaith negyddol o ganlyniad i newid ystod oedran yr ysgol ac y bydd effaith bositif o safbwynt oedran gan fydd plant yn gallu cychwyn yn yr ysgol yn y Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed, yn unol â mwyafrif ysgolion cynradd y sir.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**

**Prif Swyddog Cyllid**
Deallaf bu plant 3 oed dalgylch yr ysgol yn cael mynediad i'r cylch meithrin lleol yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, gyda'r cylch meithrin yn derbyn cyfraniad ariannol gan yr Adran Addysg, cymesur â'r niferoedd plant.

Wedi newid ystod oedran yr ysgol, bydd yr ysgol yn derbyn dyraniad cyllideb ychwanegol ar gyfer plant 3 oed sy'n cychwyn yn y Medi, tra bydd y cylch meithrin yn derbyn cyfraniad gan yr Adran Addysg ar gyfer plant sy'n cael eu pen-blwydd 3 oed yn ystod tymor yr Hydref a thymor y Gwanwyn.

Deallaf bydd effaith ariannol hyn yn niwtral o ran cost i'r Cyngor. Felly, os bydd effaith bositif o safbwynt addysg y plant, yna rwy'n cefnogi'r argymhelliad.

**Swyddog Monitro**

Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destyn mewnbwn cyfretihiol . Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Aelod Lleol**
Yn falch bod yr ymgynghoriad yn mynd i gymryd lle i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11. Yn fy marn i bydd newid ystod yr oedran yn hwb mawr i'r ysgol ag yn galluogi i'r ysgol i ddal i ffynnu yn sgil y ffaith bod bron i bob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn derbyn plant oedran 3 oed i fyny yn barod.

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar, est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Newid ystod oedran Ysgol Llanbedr i 3-11

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Gareth Jones (Swyddog Moderneiddio Addysg) / Pennaeth Ysgol Llanbedr

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

9 Gorffennaf 2018 (fersiwn 1)
12 Gorffennaf 2018 (fersiwn 2)
18 Gorffennaf 2018 (fersiwn 3)

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Adran Addysg Cyngor Gwynedd
Staff, llywodraethwyr, rhieni a phlant Ysgol Llanbedr fel rhan o'r ymgynghoriad statudol
Staff, pwyllgor a rhieni Cylch Meithrin Llanbedr fel rhan o'r ymgynghoriad statudol

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?**

| |
|---|
| Mae'r ysgol wedi siarad gyda rhieni disgyblion Ysgol Llanbedr a Phwyllgor Cylch Meithrin Llanbedr.<br><br>Mi fydd cynrychiolwyr o'r ysgol, cylch meithrin a'r gymuned yn ehangach yn cael cyfle i ymateb i'r asesiad cydraddoldeb drafft yn ystod yr ymgynghoriad statudol |

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

| |
|---|
| Mi fydd canlyniad i'r ymgysylltu yn dilyn yr ymgynghoriad statudol |

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

| |
|---|
| Cais gan Corff Llywodraethol Ysgol Llanbedr i gael newid ystod oedran yr ysgol o 4-11 i 3-11 oed. Mi fydda hyn yn rhoi yr un hawl i blant dalgylch Ysgol Llanbedr a sy'n bodoli yn bron pob ysgol gynradd yng Ngwynedd. |

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Nac oes. |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith?** (dylech ddileu'r rhai amherthnasol) | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedl-igrwydd)** | Dim | Mewn arolwg diweddar (Ionawr 2018) nododd yr ysgol fod pob plentyn blaw un yn 'wyn Prydeinig' gyda'r un arall yn 'gwyn ac Affricanaidd du'<br><br>O safbwynt hunaniaeth genedlaethol nodwyd: |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymreig 28<br>Seisnig 6<br>Albanaidd 1<br>Prydeinig 6<br>Heb nodi 1<br><br>Mae gan Ysgol Llanbedr gynllun cydraddoldeb strategol sy'n cynnwys canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer delio â digwyddiadau gwahaniaethol, gan gynnwys hil, yn yr ysgol. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | Mae Cynllun Addysg Gymraeg y Cyngor yn gosod yr un gofynion ar bob ysgol, ac felly o ran gweithredu'r polisi, ni fydd unrhyw newidiadau, waeth pa fodelau sy'n cael eu mabwysiadu.<br><br>*[Bydd asesiad ieithyddol ar wahân yn cael ei gweithredu i asesu unrhyw effaith arfaethedig ar yr iaith Gymraeg.]* |
| **Anabledd** | Dim | Mae gan Ysgol Llanbedr gynllun cydraddoldeb strategol sy'n cynnwys canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer delio â digwyddiadau gwahaniaethol, gan gynnwys anabledd, yn yr ysgol.<br>. |
| **Rhyw** | Dim | Ni fydd y cynlluniau yn cael effaith ar ryw gan fod yr ysgol a effeithir yn ysgol cynradd cymysg o ran rhyw. |
| **Oedran** | Positif | Mi fydd plant yn gallu cychwyn yn yr ysgol yn y Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed. Mi fydda hyn yn golygu bydd plant Llanbedr yn gallu derbyn yr un gwasanaeth addysg a mwyafrif plant cynradd y sir.<br><br>Mi fydda hyn yn golygu gallu darparu addysg ddi-dor o'r dosbarth meithrin i blwyddyn 6, a thrwy hynny sicrhau parhad dulliau addysgu a dysgu a chynllunio gwell o ran y cwricwlwm. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Dim yn berthnasol ond mae gan Ysgol Llanbedr gynllun cydraddoldeb strategol sy'n cynnwys canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer delio â digwyddiadau gwahaniaethol, gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol, yn yr ysgol. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Nid yw y cynnig yn awgrymu newid y categorï crefyddol yr ysgol ond mae gan Ysgol Llanbedr gynllun cydraddoldeb strategol sy'n cynnwys canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer delio â digwyddiadau gwahaniaethol, gan gynnwys crefydd neu gred, yn yr ysgol. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Dim yn berthnasol ond mae gan Ysgol Llanbedr gynllun cydraddoldeb strategol sy'n cynnwys canllawiau a |

| | | |
|---|---|---|
| | | gweithdrefnau ar gyfer delio â digwyddiadau gwahaniaethol, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn yr ysgol. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Ddim yn berthnasol. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Ddim yn berthnasol. |

**3.2 Ydi'r polisi neu wasanaeth yn cael effaith ar eu Dyletswyddau Cyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?** (Dylid dileu'r rhai amherthnasol) | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Ni fydd y cynnig yn newid dyletswydd statudol yr ysgol i amddiffyn disgyblion rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Y nod yw rhoi cyfle i'r disgyblion leisio'u barn mewn ffordd sy'n addas ac yn briodol o ystyried unrhyw ffactorau sy'n effeithio arnynt. Byddant yn parhau i ddefnyddio'r Cyngor Ysgol, gwersi ABCh, polisïau gwrth-fwlio a dulliau eraill i sicrhau bod yr ysgol yn gwahardd gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Nac ydi | Bydd yr ysgol yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. |
| **Meithrin perthnasau da** | Nac ydi | Mae gwersi ABCh yn digwydd yn yr ysgol fydd yn addysgu plant ar sut i feithrin perthynas da. |

**4) Dadansoddi'r canlyniadau**

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Effaith bositif o ran derbyn plant yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed. Mae hyn yn unol a mwyafrif ysgolion cynradd y sir. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Nac ydi |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewisiwch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | Ia |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Er nad ydym yn rhagweld unrhyw effaith negyddol mi fydd yr ysgol yn monitro ac yn gweithredu yn ôl y galw. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Dim effaith negyddol wedi ei adnabod. |

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Mi fydd yr ysgol yn monitro effaith derbyn plant yn 3 oed er mwyn sicrhau fod y deilliannau yn bositif a ddim yn cael unrhyw effaith negyddol ar weddill yr ysgol. |